




Cyfeiliornad wrth Fesur

L.7

1) Gwneir bocsys a'u caeadau i'r dimensiynau hyn, yn gywir i'r mm agosaf.



Pan roddir y caead yr y bocsys mae yna fwllch, fel yn y diagram.

- Beth yw maint mwyaf posibl y bwllch rhwng y bocsys a'r caead?
- Beth yw maint lleiaf posibl y bwllch rhwng y bocsys a'r caead?

2) Mae amserlen yn dweud bod bysus yn cyrraedd yr arosfan pob 10 munud, am 8:00, 8:10, 8:20, 8:30 ac yn y blaen. Mae'r cwmni bysus yn datgan eu bod bob tro ar amser i'r munud agosaf.


Mae Jan yn cyrraedd yr arosfan fel mae'r bws yn gadael.

- Beth yw'r amser mwyaf posibl y bydd rhaid iddi ddisgwyl am y bws nesaf?
- Beth yw'r amser lleiaf posibl y bydd rhaid iddi ddisgwyl am y bws nesaf?

3) Mewn mabolgampau, mesurir tafliadau'r bicell yn gywir i'r centimetr agosaf. Y tafliad hiraf yw 37.31m, sydd gydradd a'r record. Eglurwch sut y gallai'r tafliad yma torri'r record.

4) Yn yr un mabolgampau enillwyd y ras gyfnewid 400 metr mewn 58.3 eiliad, yn gywir i'r $\frac{1}{10}$ fed rhan o eiliad agosaf. Rhwng pau dau werth mae'r gwir amser?

5) Cynhyrchir tanciau dwr ar ffurf ciwboidau agored. Maent yn 94cm o uchder, 100cm o led a 112 cm o hyd. Mae'r dimensiynau i gyd yn gywir i'r centimetr agosaf.



Mae'r cynhyrchwyr yn hysbysebu'r tanciau fel y gallant ddal hyd at 1068 litr.

Ydi hyn yn amcangyfrif da?
Eglurwch eich ateb.

Mesurau Cyfansawdd


L.7

1) Mae car bach yn defnyddio petrol ar gyfradd cyfartalog o 48 milltir i'r galwyn. Cyfradd defnyddio petrol car mawr ydi 23 milltir i'r galwyn.

Mae Jaspal yn cyfrifo ei fod yn teithio 9,500 milltir pob blwyddyn.

- Sawl galwyn o betrol fyddai'n ei defnyddio petai'n prynu car bach?
- Sawl galwyn o betrol fyddai'n ei defnyddio petai'n prynu car mawr?
- Mae car maint canolig yn defnyddio petrol ar gyfradd o 10 cilometr i'r litr. Sawl galwyn o betrol fyddai'n ei defnyddio petai'n prynu'r car yma?

2) Mae angen peintio waliau tu allan ty. Cynllun y ty ydi petryal 13 metr wrth 10 metr. Mae'r waliau'n 5 metr o uchder.



a) Cyfrifwch gyfanswm arwynebedd y pedair wal.

Mae yna 12 ffenestr a 2 ddrws yn y ty. Mae pedair ffenestr yn 130cm wrth 250cm a chwech arall yn 130cm wrth 150cm. Mae'r ddwy ffenestr arall yn 130cm wrth 60cm. Mae'r drysau'n 90cm wrth 2m.

b) Cyfrifwch gyfanswm arwynebedd y ffenestri a'r drysau mewn m^2 .

c) Beth ydi cyfanswm arwynebedd y waliau sydd angen eu peintio?

d) Prynir paent mewn tuniau 10 litr, mae 1 litr yn ddigon i beintio $8.5m^2$. Sawl tun o baent sydd angen ei brynu?

3) Y pellter o orsaf bysus i dŷ Ama ydi 3.5 cilometr. Mae'r daith yn cymryd 8 munud. Cyfrifwch gyflymder cyfartalog y bws mewn cilometrau yr awr.

4) Mae sain yn teithio trwy awyr ar fuanedd o tua 760 milltir yr awr. Os ydi'n cymryd 8 eiliad i swm taran gyrraedd gwrandäwr pa mor bell i ffwrdd fydd y daran?

5) Defnyddir pibell ddwr i lenwi tanc 2 metr o uchder gyda diamedr mewnol o 1.6m.

a) Cyfrifwch gyfaint y dwr sydd yn y tanc pan yn llawn.

Diamedr mewnol y bibell ddwr ydi 2.5cm.

b) Cyfrifwch gyfaint y dwr sydd mewn 1 metr o'r bibell.

Mae'n cymryd 30 munud i lenwi'r tanc.

c) Faint o ddwr sy'n mynd i'r tanc bob eiliad?

d) Cyfrifwch fuanedd y dwr yn y bibell mewn metrau yr eiliad.

Arian


L.7

- 1) Aeth Donna ar ei gwyliau i Fflorida. Cymerodd 600 doler gyda hi i wario. Prynodd yr arian yma ar gyfradd o \$1.37 am £1.00. Cyfrifwch faint mae'n gostio, i'r geiniog agosaf.
Mae'n prynu'r arian gan asiant teithio sy'n ychwanegu 2.5% o gomisiwn. Beth ydi cyfanswm ei bil?
- 2) Ysgrifennir pris ar gefn llyfr mewn tair ffordd wahanol,
£5.99 yn y DU
\$7.99 yn UDA
\$14.99 yn Awstralia
Y cyfraddau cyfnewid ydi 1.37 doler UDA am bunt a 2.67 doler Awstralia am bunt. Ym mha wlad mae'r llyfr drytaf ac ymhle mae'r llyfr rhataf?
- 3) Mae Dan yn teithio ar wyliau i Ganada. Mae'n newid £400 i ddoleri Canadaidd cyn mynd ar gyfradd o \$2.11 am \$1. Mae'n treulio wythnos yn Vancouver yna'n teithio i UDA. Yno mae'n newid 200 o'i ddoleri Canadaidd i ddoleri Americanaidd. Mae'n gwybod y buasai'n cael 1.37 doler Americanaidd am £1.00 ym Mhrydain. Faint o ddoleri Americanaidd mae'n disgwyl eu cael?
- 4) Cyfradd cyfnewid punnoedd Prydain i lira Twrci ydi £1.00 am 1,877 lira. Aeth Donna ar wyliau i Twrci. Faint o lira fyddai hi'n eu cael am £250?
Pan gyrhaeddodd Twrci roedd y gyfradd cyfnewid wedi newid i 1,936 lira i'r bunt. Faint yn fwy o lira fyddai hi wedi eu cael petai hi wedi newid ei harian yn Twrci?
- 5) Mae'r car mae Mrs Lee eisiau ei brynu yn costio £7890 yn ei thref hi. Mae'n gweld bod yr un car ar werth yn Ewrop am 9,400 ewro. Os ydi 1 ewro gwerth 66c, faint fyddai Mrs Lee yn ei arbed drwy brynu'r car yn Ewrop?
- 6) Mae Rik am fynd i deithio i Seland Newydd. Mae'n costio £450 i deithio o Brydain i Seland Newydd neu £790 am docyn dwy ffordd. Fodd bynnag, dywedir wrtho bod tocyn un ffordd o Seland Newydd i Brydain yn costio \$1000. Os ydi £1.00 yn prynu 3.29 doler Seland Newydd, ydi hi'n rhatach prynu tocyn dwy ffordd ynteu dau docyn un ffordd?
- 7) Yn 2001, prynodd Eryl bâr o sandalau ym Mhortiwgal am 5,500 escwdo. Ar waelod ei dderbynneg mae'n dweud '205 escwdo = 1 ewro'. Gwyddai Eryl bod 1 ewro werth 69c. Beth yw cost y sandalau mewn punnoedd?

Ras Ffordd

L.7

Mae dau ffrind, Brody a Hari yn rhedeg ras 20 cilometr o Ambridge i Blaconsfield ac yn ôl. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'u teithiau.



- Pa un sy'n cymryd y blaen gyntaf?
- Maent yn dod at allt. Tua pha mor bell o Ambridge mae troed yr allt?
- Pryd aeth un heibio i'r llall am y tro cyntaf?
- Sawl gwaith aethon nhw heibio ei gilydd?
- Sawl gwaith newidiodd rhedwr blaen y ras?
- Pwy oedd ar y blaen ar ôl awr?
- Pwy oedd yn rhedeg gyflymaf yn syth ar ôl hanner ffordd?
- Pam wnaethon nhw gyflymu rhwng 1 awr 45 munud a 2 awr?
- Pwy enillodd y ras ac o faint?
- Beth oedd cyflymder cyfartalog Brody am y ras gyfan?
- Eglurwch y digwyddiad dramatig a ddigwyddodd ar ôl 18km

Cymedr

L.7

1) Tyfodd Joe blanhigion yn ei dŷ gwydr. Ar ôl wythnos mesurodd eu taldra. Dyma ei ganlyniadau, yn gywir i'r cm agosaf.

Taldra y planhigyn cm'au	Nifer y planhigion
45	5
46	8
47	19
48	23
49	12
50	3

- Cyfrifwch daldra cymedrig y planhigion yn gywir i'r mm agosaf
- Beth ydi taldra moddol y planhigion?
- Beth ydi canolrif taldra'r planhigion?
- Beth ydi amrediad y taldra?

2) Mae'r tabl yn dangos gwerthiant dau lyfr mewn 50 o siopau dros y wlad.

Nifer y llyfrau a werthwyd	Nifer y siopau'n gwerthu llyfr A	Nifer y siopau'n gwerthu llyfr B
0	3	7
1	10	6
2	7	5
3	7	5
4	8	7
5	7	5
6	4	6
7	1	5
8	0	2
9	3	2

Er enghraifft, gwerthodd 3 siop dim un llyfr A a 7 siop dim un llyfr B.

a) Ar gyfer y ddau lyfr, cyfrifwch y nifer cymedrig a werthwyd yn y siopau.

b) Ar gyfer y ddau lyfr, sawl siop werthodd lai na'r nifer cymedrig?



Mae'r siopau hyn yn rhan o gadwyn fwy o 210 o siopau.

c) Ar gyfer y ddau lyfr, cyfrifwch tua sawl llyfr werthodd y siopau i gyd gyda'i gilydd.

Hadau Blodau

L.7

Mae cwmni yn cynhyrchu pecynnau o hadau fydd yn tyfu i fod yn flodau gwyn neu glas. Wedi hadu 100 pecyn, cofnodwyd lliwiau'r blodau. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau.



a) Cwblhewch y tabl isod ac amcangyfrifwch nifer cyfnewid y blodau glas a geir o becyn o hadau.

Nifer y blodau glas	Canolbwynt y bar (x)	Nifer y pecynnau (f)	xf
3-5	4	13	52
6-8	7	22	
9-11	10		
12-14			
15-17			

b) Lluniwch dabl tebyg ac amcangyfrifwch nifer cyfnewid y blodau gwyn a geir o becyn o hadau.

c) Mae'r cwmni yn cynhyrchu 15,000 pecyn o hadau pob blwyddyn. Tua faint o flodau glas a gwyn a geir o'r pecynnau hyn?

d) Tua sawl pecyn fyddai'n cynhyrchu mwy nac 14 blodau gwyn?

e) P'run o'r ddau siart sy'n dangos yr amrediad mwyaf?

f) Llenwch y bylchau yn y frawddeg yma 'Mae pecyn o hadau fel arfer yn cynnwys mwy o hadau nac o hadau

Amllder Cymharol


L.7

- 1) Teflir dis 100 gwaith a chofnodir nifer y chwechau. Tua sawl gwaith fyddech chi'n disgwyl taflu chwech?
- 2) Mae bag yn cynnwys 9 disg, gyda phob un yn teimlo'n debyg. Mae rhai yn las, rhai yn wyrdd a rhai yn goch. Mae Abi yn cymryd disg o'r bag ac yn cofnodi'r lliw. Mae'n rhoi'r disg yn ôl.
Mae'n gwneud hyn 100 gwaith gan gofnodi'r holl ganlyniadau yn y tabl isod.

Glas	Gwyrdd	Coch
45	34	21

How many discs of each colour do you think are in the bag?

- 3) Mae gan ciwb dau wyneb coch, dau wyneb glas a dau wyneb melyn.



Mae grwp o ffrindiau yn gwneud arbrawf i weld os ydi'r ciwb â thuedd. Mae pob un yn taflu'r dis ac yn cofnodi lliw yr wyneb top. Dyma eu canlyniadau.

Enw	Nifer y tafladau	Canlyniadau		
		Coch	Glas	Melyn
Emma	100	45	34	21
Liam	160	87	40	33
Harriet	60	28	23	9
Jude	80	46	20	14

- a) Data pwy sydd mwyaf tebygol o roi'r amcangyfrif gorau o gael pob canlyniad. Eglurwch eich ateb.
- b) Ydi'r ciwb â thuedd. Eglurwch eich ateb.
Mae'r ffrindiau yn cyfuno eu canlyniadau

Nifer y tafladau	Canlyniadau		
	Coch	Glas	Melyn
400	206	117	77

- c) Defnyddiwch y canlyniadau yma i gyfrifo'r tebygolrwydd o daflu melyn.
- d) Defnyddiwch y canlyniadau yma i gyfrifo'r tebygolrwydd o daflu coch.

Pwerau

Peidiwch â defnyddio cyfrifiannell

L.8

1) Mae'r tabl yma yn dangos pwerau 4

$$\begin{aligned}4^0 &= 1 \\4^1 &= 4 \\4^2 &= 16 \\4^3 &= 64 \\4^4 &= 256 \\4^5 &= 1024 \\4^6 &= 4096 \\4^7 &= 16384 \\4^8 &= 65536 \\4^9 &= 262144 \\4^{10} &= 1048576 \\4^{11} &= 4194304 \\4^{12} &= 16777216\end{aligned}$$

- a) Eglurwch sut mae'r tabl yn dangos bod $256 \times 1024 = 262144$
b) Eglurwch sut mae'r tabl yn dangos bod $64 \times 262144 = 16777216$
c) Eglurwch sut mae'r tabl yn dangos bod $1048576 \div 16384 = 64$
d) Eglurwch sut mae'r tabl yn dangos bod $16777216 \div 1048576 = 16$
e) Defnyddiwch y tabl i gyfrifo $\frac{4194304}{16384}$
f) Defnyddiwch y tabl i gyfrifo $\frac{16777216}{1048576}$

2) $8^6 = 262144$. Defnyddiwch yr wybodaeth yma i ysgrifennu atebion y canlynol.

- a) Beth yw digid unedau 8^{12} ?
b) Beth yw digid unedau 18^{12} ?
c) Beth allai digid unedau 8^3 fod?
d) Beth allai digid unedau 18^3 fod?

3) Pa rai o'r canlynol sy'n wir? Rhowch yr ateb cywir os nad ydynt, neu eglurwch pam.

- | | | |
|------------------------------|-------------------------------------|------------------------------|
| a) $12^1 \div 6^0 = 6^1$ | b) $2^{10} \div 4^5 = 1$ | c) $3^9 \times 3^2 = 6^{18}$ |
| d) $7^6 \times 7^3 = 7^9$ | e) $16^4 \div 8^2 = 8^2$ | f) $4^2 \times 2^4 = 8^6$ |
| g) $2^7 \times 3^3 = 6^{10}$ | h) $4^{10} \div 2^4 = 4^8$ | i) $8^6 \div 8^1 = 8^6$ |
| j) $12^3 \div 6^3 = 2^3$ | k) $3^{12} \times 3^{12} = 3^{144}$ | l) $8^0 \times 8^0 = 0$ |

Cwestiynau yn y Ffurf Safonol

L.8


1) Rhoddir pellter y planedau o'r haul yn y tabl isod.

Planed	Pellter o'r haul mewn km	Pellter o'i gymharu a'r ddaear
Mercer	5.8×10^7	0.39
Iau	1.1×10^8	
Y Ddaear	1.5×10^8	1
Mawrth	2.3×10^8	
Gwener	7.8×10^8	
Sadwrn	1.4×10^9	
Wranws	2.9×10^9	
Neifion	4.5×10^9	
Plwton	5.9×10^9	39.3

Mae'r drydedd golofn yn cymharu pellter y Ddaear o'r haul gyda phellter y planedau eraill o'r haul.

- Cwblhewch y tabl.
- Cyflymder golau yw tua 3×10^8 metr yr eiliad. Defnyddiwch y gwerthoedd hyn i gyfrifo faint o amser mae'n cymryd golau i deithio o'r Haul i'r Ddaear.
- Faint fydd hi'n cymryd i olau deithio o'r Haul i Blwton?

2) Diamedr Mawrth ydi 6.79×10^6 metr. Mae dwy loeren yn mynd o amgylch Mawrth ar wahanol uchder a buanedd.



Mae'r lloerennau yn cylchdroi ar uchder o 150km a 260km uwchben arwyneb Mawrth.

- Beth yw'r pellter mwyaf posibl rhwng y ddwy loeren?
- Beth yw'r pellter lleiaf posibl rhwng y ddwy loeren?

3) Os ydi 1cm tua 0.395 modfedd, sawl centimetr ciwbig sydd mewn troedfedd giwbig? Rhowch eich ateb yn y ffurf safonol.

Newid Cyfrannol

L.8

1) Poblogaeth pentref ar ddiwedd 1998 oedd 1,450. Ar ddiwedd y flwyddyn wedyn roedd y boblogaeth wedi cynyddu 10%. Ar ddiwedd y flwyddyn wedyn cynyddodd 8% arall. Beth oedd poblogaeth y pentref ar ddiwedd 2000?

2) Mae Arlan yn rhoi £1000 mewn banc. Mae o am ei adael yno am dair blynedd. Dywedir wrtho pan yn rhoi'r arian yn y banc y bydd yn tyfu 5% y flwyddyn.

Mae Arlan yn dweud 'Ar ddiwedd 3 mlynedd bydd gennyf £1150 yn y banc'

a) Eglurwch pam fod Arlan yn anghywir.

b) Cyfrifwch y gwir swm fydd gan Arlan yn y banc ar ddiwedd y 3 mlynedd.

3) Cost car yw £8000. Ar ôl blwyddyn bydd y car wedi colli 12% o'i werth.

a) Pa un o'r cyfrifiadau hyn fydd yn cyfrifo gwerth y car ar ôl blwyddyn?

$$8000 \times 1.12 \quad 8000 \times 0.12 \quad 8000 \times 0.88 \quad 8000 \times 1.08$$

b) Y flwyddyn wedyn bydd y car yn colli 9% arall. Pa gyfrifiad sydd rhaid ei wneud i gyfrifo gwerth y car ar ôl yr ail flwyddyn?

c) Beth fydd gwerth y car ar ôl dwy flynedd?

4) Roedd busnes yn cyflogi 2000 o bobl ar ddiwedd 1995. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y gweithwyr ar ddiwedd y blynnydoedd nesaf.

Diwedd 1995	2000
Diwedd 1996	10% yn fwy
Diwedd 1997	10% yn fwy
Diwedd 1998	10% yn fwy

a) Pa un o'r canlynol y gellir ei ddefnyddio i gyfrifo nifer y gweithwyr ar ddiwedd 1998?

$$2000 \times 0.3 \quad 2000 \times 1.3 \quad (2000 \times 1.1)^3 \quad 2000 \times 1.1^3 \quad 2000 \times 3.3$$

b) Cyfrifwch nifer y gweithwyr ar ddiwedd 1998.

5) Aeth dau o bobl i dŷ bwyta. Cost y bwyd oedd £60. Ychwanegir 10% am wasanaeth. Yna ychwanegir TAW o $17\frac{1}{2}\%$ i'r cyfanswm newydd.

a) Pa un o'r cyfrifiadau hyn fyddai'n cyfrifo cyfanswm y bil terfynol?

$$60 \times 2.275 \quad 60 \times 1.2925 \quad 60 \times 1.275 \quad 60 \times 2.2925$$

b) Eglurwch pam fod y cyfrifiad yma yn gweithio.

Cyfrannedd

L.8

- 1) Mae'r tabl isod yn dangos poblogaeth dwy dref, Greystock a Thrusham ym 1980 a 2000.

	1980	2000
Greystock	43,520	
Thrusham	27,840	36,480

- a) Yn Greystock disgynnodd y boblogaeth 15.4% rhwng 1980 a 2000.
Beth oedd poblogaeth Greystock yn 2000?
- b) Cynyddodd y boblogaeth yn Thrusham rhwng 1980 a 2000.
Cyfrifwch y cynnydd canrannol i 1 lle degol.
- c) Rhwng 1980 a 2000 cynyddodd poblogaeth dwy dref arall, Kinster a Flockborough, o'r un faint. Roedd y cynnydd canrannol yn Kinster yn fwy na chynnydd canrannol Flockborough.
Pa rai o'r datganiadau isod sy'n gywir?
'Ym 1980 roedd poblogaeth Kinster yn fwy na phoblogaeth Flockborough'
'Ym 1980 roedd poblogaeth Kinster yn llai na phoblogaeth Flockborough'
'Ym 1980 roedd poblogaeth Kinster yr un maint a phoblogaeth Flockborough'
'O'r wybodaeth a roddir nid ydym yn gallu dweud pa dref oedd gyda'r boblogaeth fwyaf.'

- 2) Mae cwmni yn cynhyrchu cyfrifiaduron glinfwrdd a ffoniau lôn. Mae'r tabl isod yn dangos gwerthiant y cwmni mewn miloedd o bunnoedd ar gyfer 1994 a 2000.

	1994	2000
Cyfrifiaduron glinfwrdd	11,200	14,300
Ffoniau Lôn	1,400	

- a) Beth oedd cynnydd canrannol yng ngwerthiant cyfrifiaduron glinfwrdd y cwmni o 1994 i 2000?
- b) Cynyddodd gwerthiant ffoniau lôn o 2400% rhwng 1994 a 2000. Faint oedd eu gwerthiant yn 2000?
- c) Pa gyfran o'u gwerthiant ym 1994 oedd ffoniau lôn?
- d) Pa gyfran o'u gwerthiant ym 2000 oedd ffoniau lôn?

Llythrennau a %

L.8

- 1) Mae darn o linyrn yn x cm o hyd. Mae darn arall o linyrn yn $x + 5$ cm o hyd. Os ydi'r ail ddarn 20% yn hirach na'r cyntaf, cyfrifwch werth x .
- 2) Ym 1998 cost tocyn bws oedd x ceiniog. Ym 1999 cynyddodd 10%.
 - a) Beth oedd ei bris ym 1999, yn nhermau x .
Yn 2000 cynyddodd y gost 8% arall.
 - b) Beth oedd y pris newydd, yn nhermau x .
 - c) Os mai cost y tocyn ym 1998 oedd £1.50, faint oedd ei gost yn 2000? (yn gywir i'r geiniog agosaf)
- 3) Torrir darn o linyrn, sy'n mesur y centimetr yn ei hanner. Teflir un darn i ffwrdd a thorrin y darn sy'n weddill yn dri darn hafal. Teflir dau ddarn i ffwrdd a thorrir y darn sy'n weddill yn ei hanner.
 - a) Beth ydi hyd y darnau hyn yn nhermau y .
 - b) Os mai hyd y darn llinyn gwreiddiol oedd 600cm, beth ydi hyd y ddau ddarn terfynol?
- 4) Hyd ddarn petryalog o bren ydi x cm a'i led ydi y cm.
Mae'r petryal yn cael ei wneud yn llai trwy dorri 20% oddi ar ei hyd a 10% oddi ar ei led.
 - a) O ba ganran mae arwynebedd y petryal yn lleihau?
Mae darn arall o bren gyda'r un dimensiynau yn cael ei wneud yn llai trwy dorri 10% oddi ar ei hyd a 20% oddi ar ei led.
 - b) O ba ganran mae arwynebedd y petryal yn lleihau?
 - c) Os mai 150cm oedd ei hyd gwreiddiol a 40cm oedd ei led gwreiddiol, cyfrifwch arwynebedd terfynol y ddau ddarn.
- 5) Poblogaeth tref ym 1998 oedd n person. Yn ystod 1999 cynyddodd y boblogaeth o 8%. Yn ystod 2000 lleihaodd y boblogaeth o 2%.
Beth oedd poblogaeth y dref ar ddiwedd 2000 yn nhermau n ?
- 6) Hyd betryal ydi x cm a'i led ydi y cm.
 - a) Beth ydi arwynebedd y petryal yn nhermau x ac y .
Roedd gan betryal arall yr un arwynebedd, ond mae ei led 10% yn fwy.
 - b) Pa ganran yn llai ydi'r hyd?
Mae petryal yn mesur 110cm wrth 100cm.
 - c) Beth ydi dimensiynau petryal sydd â'r un arwynebedd ond gydag un ochr 10% yn fwy.